



Adroddiad Blynyddol Blwyddyn 2021 – 2022



Tribiwnlys Tir
Amaethyddol
Cymru

Agricultural
Land Tribunal
Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	12
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	13
Adran 5	Gwariant	14

Rhagair

Mae'n bleser cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar gyfer 2021-22.

Fel y dywedais yn fy adroddiad ar gyfer 2020-21, mae'r Tribiwnlys, fel cymaint o gyrff cyhoeddus eraill, yn parhau i weithio ar-lein. Mae unrhyw broblemau technegol a gafwyd i ddechrau bellach wedi'u trechu, ac mae'r Tribiwnlys yn ceisio cynnig gwasanaeth sydd mor hygyrch ac ymatebol i'r cyhoedd ag yr oedd cyn Covid. Mae'r Tribiwnlys wedi ailgychwyn ymweld â safleoedd ond lle gallwn, rydym yn parhau i ddefnyddio Platfform Fideo rhagorol Llywodraeth Cymru ar y Cwmwl ar gyfer gwrandawriadau.

Mae Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr wedi dod â'i brosiect bellach i fwcwl ar Dribiwnlysoedd Cymreig datganoledig ac wedi cyhoeddi ei argymhellion. Bydd rhai ohonynt yn effeithio ar y Tribiwnlys hwn. Y newid mwyaf yw y rhagwelir y bydd gan y Tribiwnlys hwn le newydd fel rhan o Siambr Eiddo mwy i Gymru. Rwy'n croesawu'r cynigion hyn. Drwyddynt, byddwn yn gallu gweithio'n agosach â'n cydweithwyr yn y Tribiwnlys Eiddo Preswyl ac mae'n gam arall ar y ffordd i lunio awdurdodaeth benodol Gymreig fydd â'i fys ar byls anghenion penodol Cymru a chymuned ffermio Cymru.

Mae'r Tribiwnlys yn parhau i anelu at gynnig gwasanaeth cyfeillgar, effeithlon, ac arbenigol i ddefnyddwyr, i'r rheini sy'n ymglyfreitha ac i'r pwrs cyhoeddus, gan wneud hynny am y gost isaf bosibl. Yn wahanol i'r system llysoedd, nid oes tâl pan gyflwynir cais i'r Tribiwnlys, ac ym mhob achos bron, ni fydd atebolrwydd i dalu costau'r ochr arall, beth bynnag y canlyniad. Yn wahanol i gymrodeddwyr preifat neu benderfyniadau gan drydydd partiön, nid oes angen i bartiön dalu ffi er mwyn i'r panel wrando ar achos. Mae'r Tribiwnlys felly yn ffordd gosteffeithiol iawn o ddatrys anghydfodau.

Mae'r Tribiwnlys yn Dribiwnlys arbenigol, ac rwyf am ddiolch eto i baneli'r Tribiwnlys sy'n cynnwys ffermwyr, perchnogion tir, ac arbenigwyr draenio. Rydym yn manteisio llawer ar eu gwybodaeth a'u profiad wrth ddatrys yr anghydfodau sy'n dod ger ein bron. Mae gan bob cwr o Gymru, a phob math o weithgarwch amaethyddol yng Nghymru, lais yn y Tribiwnlys. Gwnaethom lwyddo i gyfarfod yn ystod ein sesiwn hyfforddi yn hydref 2021, er mai o bell y gwnaed hynny, gan ddefnyddio Platfform Fideo'r Tribiwnlysoedd ar y Cwmwl.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, Swyddog Cymorth y Tribiwnlys, ei reolwr busnes a'u cydweithwyr yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru am eu holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r ddau Ddirprwy Gadeirydd, a ddirprwyodd drosaf am sawl mis yn gynnar yn 2022.

Dr Christopher McNall
Cadeirydd y Tribiwnlys

Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Sail y Tribiwnlys
- Swyddogaethau'r Tribiwnlys
- Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys
- Proses y Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau ac Ymddeoliadau
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Defnyddio'r Tribiwnlys

Sail y Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn sefydliad statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 ac mae ganddo awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn chwarae rhan bwysig drwy ddatrys anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n gysylltiedig â chytundebau tenantiaeth sy'n cael eu dal o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru hefyd yn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Prif nod Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yw:

- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gosteffeithiol ac o ansawdd da i'r rheini sy'n defnyddio'r Tribiwnlys ac i'r aelodau
- Sicrhau bod pob agwedd ar waith y Tribiwnlys yn cael ei gweinyddu mewn ffordd a fydd yn sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol
- Gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru

Swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â:

Draenio Tir:

- Adfer neu wella ffosydd

Cytundebau tenantiaeth:

- Hysbysiad ymadael â daliad
- Olyniaeth ar ôl marwolaeth
- Olyniaeth ar ôl ymddeoliad

Agweddau ar amaethyddiaeth:

- Hwsmonaeth wael
- Llosgi grug neu borfa
- Offer sefydlog
- Gwelliant/gwelliannau hirdymor
- Gerddi marchnad

Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys

Mae'r rheoliadau sy'n rheoli gweithdrefnau'r Tribiwnlys i'w gweld yn y ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardal) 1982 (OS 1982/97)
- Deddf Draenio Tir 1991
- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007.

Proses y Tribiwnlys

I wneud cais neu i gyflwyno apêl, rhaid ichi lenwi'r ffurflen gais perthnasol a'i hanfon at Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Derbynnir ceisiadau drwy'r post, ffacs, neu e-bost. Ni chodir tâl am wneud cais i'r Tribiwnlys.

Bydd y Tribiwnlys yn cydnabod bod eich cais wedi dod i law. Bydd y Tribiwnlys yn cofrestru'ch achos ymhen 10 diwrnod gwaith neu bydd yn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth. Ar ôl i'r cais gael ei gofrestru, bydd copi ohono'n cael ei anfon at y parti a fydd wedi'i enwi'n Ymatebydd.

Nid yw cais at Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn arwain yn anorfod at wrandawriad. Caiff llawer o achosion eu datrys rhwng y partion ac nid oes angen cynnal gwrandawriad. Os yw'r achos yn mynd yn ei flaen i wrandawriad gerbron y Tribiwnlys; mae'r panel yn cynnwys cadeirydd â chymwysterau cyfreithiol a dau aelod lleyg. Penodir aelodau lleyg oherwydd yr arbenigedd a'r wybodaeth gyffredinol sydd ganddynt.

Cyn bron pob gwrandawriad o'r Tribiwnlys, bydd panel y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Mae'n bosibl y bydd y Tribiwnlys yn archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, offer/cyfarpar a chynnyrch.

Bydd gwrandawriadau'r Tribiwnlys yn cael eu cynnal yn agos at y tir dan sylw neu ar-lein. Mae gwrandawriadau'r Tribiwnlys yn cael eu rheoli gan y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, a rhaid bod ganddynt gymhwyster cyfreithiol. Mae'r ddau aelod arall o'r panel yn aelodau lleyg sydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio, draenio a materion yn ymwneud â pherchenogion tir yng Nghymru.

Mae'r Tribiwnlys yn cyhoeddi'i benderfyniadau ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Ceir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i Siambwr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys, ar sail gyfyngedig.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau i'w gweld ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau ar ffurf wahanol. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen 8.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a'r aelodau lleyg. Penodir ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol hysbysebu swyddi gwag a chynnal cyfweiliadau cystadleuol.

Cadeirydd: Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol y Tribiwnlys.

Aelodau Lleyg: Mae aelodau lleyg yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol i waith y Tribiwnlys.

Ysgrifenyddiaeth: Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r ysgrifenyddiaeth, sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r cadeirydd ynglŷn â phob pwynt cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn y gwrandawriad ac yn trosglwyddo dyfarniadau a chyfarwyddiadau'r cadeirydd yn ysgrifenedig i'r partïon. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y cadeiryddion, yr aelodau a'r rheini sy'n defnyddio'r Tribiwnlys ac mae'n mynd i rai o'r gwrandawriadau er mwyn helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Yn ystod 2021-2022, roedd:

- 0 penodiad
- 0 ymddeoliad
- 0 ymddiswyddiad.

Arfarniadau

Ni chynhaliwyd unrhyw arfarniadau yn ystod 2021-2022.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi blynyddol y Tribiwnlys ar 16 Medi 2021. Bwriedir cynnal yr un nesaf yn hydref 2022.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu ag ysgrifenyddiaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru:

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
Blwch Swyddfa Bost 100
Llandrindod
Powys
LD1 9BW

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 0300 025 9809

E-bost y Tribiwnlys: agriculturalandtribunalwales@llyw.cymru

Gwefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru

Defnyddio'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na fydd rhywun sy'n medru'r Gymraeg ar gael yn syth, byddwn yn trefnu i aelod o staff y Tribiwnlys sy'n medru'r Gymraeg eich ffonio'n ôl.

Gallwch ddewis i wrandawriad y Tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'ch iaith gyntaf, ac os ydych am siarad eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawriad, gallwn drefnu cyfieithydd. Os bydd angen dehonglydd iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawriad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi neu unrhyw un arall a fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawriad unrhyw anghenion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny.

Er mwyn i'r ysgrifenyddiaeth fedru trefnu cyfieithwyr ar y pryd neu ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rheini a fydd yn dod i'r gwrandawriad, rhaid rhoi digon o rybudd iddi ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac Ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau a anfonwyd ymlaen
- Yr hyn a gyflawnwyd yn unol â'r dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn dechrau ym mis Ebrill ac yn dod i ben ym mis Mawrth.

Cesglir yr ystadegau a ganlyn:

- nifer y ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- y math o gais a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- canlyniadau'r ceisiadau

Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd 2021-22



Tabl 2.2: Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a Math o Gais

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd				
	2021-2022	2020-2021	2019-2020	2018-2019	2017-2018
Draenio Tir	3	2	4	5	4
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	8	5	13	18	11
Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad	2	1	0	1	1
Cydsyniad i gyflwyno Hysbysiad Ymadael	6	5	5	5	1
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	1	0	0	0	0
Offer Sefydlog	0	0	0	0	0
Cyfanswm	20	13	22	29	17


Tabl 2.3: Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd fesul blwyddyn yn ystod 2017-2022*

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd (i gynnwys rhai a drosglwyddwyd o 2015-2016)				
	2021-2022	2020-2021	2016-2017	2018-2019	2017-2018
Draenio Tir	2	3	6	6	5
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	4	8	9	15	14
Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad	0	1	1	0	2
Cysyniad i gyflwyno Hysbysiad Ymadael	1	3	1	1	2
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	0	0
Offer Sefydlog	0	0	0	0	0
Cyfanswm	7	15	17	22	23

* Ni chafwyd unrhyw geisiadau'n ymwneud â'r materion isod yn ystod 2016-2022:

- Cydsyniad ar gyfer gwelliannau hirdymor
- Llosgi grug neu borfa
- Gerddi marchnad

Tabl 2.4: Cynnydd gyda Cheisiadau yn 2021-22 yn ôl Canlyniad



Tabl 2.5: Hynt Ceisiadau yn 2021-2022 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

Math o Gais	Tynnwyd yn ôl	Gorchymyn Cydsynio	Gwrthodwyd	Cadarnhawyd	Ar y Gweill
Draenio Tir	2	0	0	0	7
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	3	1	0	0	19
Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad	0	0	0	0	0
Cydsyniad i gyflwyno Hysbysiad Ymadael	1	0	0	0	15
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	0	0
Cydsyniad ar gyfer Gwelliannau Hirdymor	0	0	0	0	0
Offer Sefydlog	0	0	0	0	0
Cyfanswm	6	1	0	0	41

Yn ystod 2020-2021, roedd:

- 1 gwrandawriad hybrid
- 1 gwrandawriad ar bapur (lle mae aelodau'r panel yn cyfarfod heb i'r partion fod yn bresennol)
- dim cynadleddau dros y ffôn (lle mae aelodau'r panel a'r partion yn cymryd rhan dros y ffôn).

Adolygiadau ac apeliadau a anfonwyd ymlaen

Caiff partion wneud cais, ar sail gyfyngedig, am adolygiad o Benderfyniad Tribiwnlys. Ni wnaed unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Caiff partion gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt o gyfraith. Rhaid gofyn yn gyntaf am ganiatâd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i apelio. Byddwch yn cael gwybod am unrhyw ddyddiadau cau yn y llythyr penderfyniad y bydd y Tribiwnlys yn anfon atoch. Daeth un apêl i law yn ystod y flwyddyn.


Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i law'r Tribiwnlys yn ystod 2021-22.

Yr hyn a gyflawnwyd yn unol â'r dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur drwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth, gan fesur hynny drwy fodlonwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur effeithlonwydd ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y daw'r cais i law tan y gwrandawriad neu'r penderfyniad. Er mwyn mesur bodlonwydd cwsmeriaid, defnyddir dangosydd sy'n deillio o arolygon a gynhelir bob hyn a hyn ymhlith cwsmeriaid.



Adran 3 – Ein Cwsmeriaids

Yn yr adran hon:

- Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio gwella'r gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid a'i nod yw rhoi lle canolog i'r cwsmeriaid ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, anfonodd y Tribiwnlys arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda phenderfyniadau'r Tribiwnlys. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein helpu i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well. Maent yn dangos inni beth mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae angen i'r Tribiwnlys wella.

Llenwyd 0 ffurflen yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- **Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2022-2023**

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn dal i ddatblygu er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes ac ar ein hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

Blaenoriaethau Busnes 2022-2023

- Parhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel gan sicrhau ein bod yn cwrdd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Parhau i fonitro ac i ddiweddarau gwefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
- Trefnu cynhadledd hyfforddiant flynyddol ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys, gan nodi anghenion o ran hyfforddiant, ac ymateb iddynt.
- Sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i gynnal safonau'r Gymraeg.

Adran 5 – Gwariant

Gwariant ar gyfer 2021-2022

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r Aelodau ar gyfer trafodion y Tribiwnlys	£2,400.00
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)	£ 2,600.00
Hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau	£1,600.00
Cyfanswm*	£6,600.00

* i'r £1,000 agosaf